

Fframweithiau cyffredin dros dro: lechyd planhigion; Amrywogaethau a hadau planhigion

Awst 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7571**

E-bost: **Lucy.Valsamidis@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#)** | **[Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Fframweithiau cyffredin dros dro: Iechyd planhigion; Amrywogaethau a hadau planhigion

Awst 2022

Awduron:

Lucy Valsamidis a Sara Moran



Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig y fframweithiau cyffredin dros dro ar **iechyd planhigion** ac **amrywogaethau a hadau planhigion** ym mis Chwefror 2022.

Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar sut i gydweithio a rheoli gwahaniaethau mewn meysydd a lywodraethwyd neu a gydlynwyd yn flaenorol ar lefel yr UE.

Mae'r llywodraethau'n cyhoeddi fframweithiau cyffredin ar ffurf dros dro er mwyn craffu arnynt. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn cynnal gwaith craffu ar y fframweithiau cyffredin dros dro ar **iechyd planhigion** ac **amrywogaethau a hadau planhigion**.

Unwaith y bydd pob senedd wedi cwblhau'r gwaith craffu, mae'r llywodraethau yn bwriadu ymateb i argymhellion a chytuno ar fersiynau terfynol o'r naill fframwaith cyffredin a'r llall.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r ddau fframwaith cyffredin dros dro.

Cynnwys

Crynodeb	1
1. Cefndir.....	2
Deddfwriaeth.....	2
Rhwymedigaethau rhyngwladol.....	4
Rhwymedigaethau'r DU a'r UE.....	5
Masnach rhyngwladol	6
2. Y fframweithiau cyffredin	6
Cwmpas	7
3. Rolau a Chyfrifoldebau	7
Cydweithio.....	9
4. Rheoli ymwahanu.....	10
Gwneud penderfyniadau	10
Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020	11
Rheoli ymwahanu â Gogledd Iwerddon a'r UE.....	12
5. Datrys anghydfodau	12
Yr effaith ar benderfyniadau	13

6. Rheoli'r rhwymedigaethau rhyngwladol	14
Rhwymedigaethau rhyngwladol.....	14
Rhwymedigaethau'r DU a'r UE.....	15
Cytundebau masnach rhyngwladol.....	15
7. Monitro, adolygu a diwygio	16
8. Tryloywder ac atebolrwydd	17

Crynodeb

Mae'r fframweithiau cyffredin dros dro ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion yn nodi sut y bydd y DU a llywodraethau datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud penderfyniadau yn y meysydd polisi hyn y tu allan i'r UE.

Mae'r fframweithiau yn nodi strwythurau manwl er mwyn i'r llywodraethau weithio gyda'i gilydd. Mae Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi codi pryderon am gymhlethdod llywodraethiant fframwaith iechyd planhigion. Mae'r fframwaith amrywiaethau a hadau planhigion yn cyfeirio at bedwar protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn meysydd penodol. Mae'r rhain wrthi'n cael eu datblygu ac nid ydynt wedi'u cyhoeddi.

Mae'r llywodraethau'n cytuno i gynnal rheolau cyffredin ar iechyd planhigion ar draws y DU, cynnal y safonau gofynnol ar gyfer marchnata hadau, a chynnal marchnad fewnol weithredol yn y DU ar gyfer hadau a deunydd lluosogi planhigion.

Bydd y llywodraethau yn ceisio cytuno a ddylid mabwysiadu'r un agwedd at gyfraith a pholisi ynteu a ddylid ymwahanu. Os na fydd y llywodraethau'n cytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull neu ddilyn trywydd gwahanol, byddant yn ceisio datrys yr anghydfod ar y lefel isaf bosibl. Yna bydd modd iddynt drosglwyddo'r anghydfod i uwch-swyddogion ac, yn y pen draw, i Weinidogion.

Rhan o ddiben y fframweithiau cyffredin yw sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y DU. Nod yr egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Neddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yw sicrhau (yn gyffredinol) y gellir gwerthu neu awdurdodi nwyddau a gwasanaethau y gellir eu gwerthu neu eu hawdurdodi mewn un rhan o'r DU, mewn unrhyw ran arall. Gallai hyn gyfyngu ar effaith newidiadau i gyfraith Cymru yn y meysydd polisi hyn. Fodd bynnag, nid yw'r fframweithiau'n cyfeirio at y Ddeddf na'r broses ar gyfer cytuno ar eithriadau o'r Ddeddf.

Mae'r fframweithiau yn darparu i llywodraethau gydweithio ar rwymedigaethau rhyngwladol perthnasol, ac i ystyried goblygiadau sy'n deillio o fasnach rhyngwladol sy'n cael effaith uniongyrchol ar ei gweithrediad.

Nid yw'r fframweithiau yn cynnwys gofyniad i'r llywodraethau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i seneddau a rhanddeiliaid am y modd y maen nhw'n gweithio. Nid oes gofyniad ychwaith i gynnwys seneddau a rhanddeiliaid yn y broses o adolygu a diwygio'r fframwaith. Mae'r llywodraethau wedi cytuno mewn egwyddor i adrodd

yn rheolaidd i'r seneddau ar fframweithiau cyffredin. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno'n unochrog i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar fframweithiau cyffredin ac i ymgynghori â'r Senedd a rhanddeiliaid wrth adolygu a diwygio.

1. Cefndir

Mae'r UE yn gosod rheolau ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion. Gan fod y cyfnod pontio bellach wedi dod i ben, nid oes yn rhaid i Lywodraeth y DU na'r llywodraethau datganoledig ddilyn cyfraith yr UE, erbyn hyn, a gallant hefyd ymwahanu oddi wrth gyfraith yr UE a ddargedwir, ac eithrio Gogledd Iwerddon.

- Mae **polisi iechyd planhigion** yn cynnwys mewnfario, allfario a symud planhigion a chynhyrchion planhigion, goruchwyllo ac asesu risg plâu planhigion a brigiadau o achosion, a gwarchod bioddiogelwch planhigion.
- Mae **polisi amrywogaethau a hadau planhigion** yn cynnwys hawliau eiddo bridwyr planhigion, cofrestru amrywogaethau planhigion, a safonau ar gyfer marchnata ac ardystio hadau a deunydd lluosogi planhigion arall.

Mae iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion yng nghwmpas Protocol Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyfraith Gogledd Iwerddon barhau i fod yn gyson â chyfraith yr UE yn y meysydd hyn.

Deddfwriaeth

Iechyd planhigion

Prif ddeddfwriaeth yr UE ar **iechyd planhigion** yw Rheoliad Iechyd Planhigion (Rheoliad (UE) 2016/2031). Mae'n gosod rheolau ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion, gan gynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ewropeaidd sefydlu rhestr o blâu nad ydynt i'w cyflwyno i'r UE na'u cadw yn yr UE a gwyliadwriaeth o blâu;
- nodi sut y dylid rheoli achosion o blâu;
- cyfyngu ar symud planhigion penodol a chynhyrchion planhigion i'r UE ac yn yr UE a gosod gofynion ar gyfer hynny.

Yn ogystal, mae'r **Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (Rheoliad (UE) 2017/625)** yn gosod rheolau ar reolaethau swyddogol i sicrhau bod rheolau ar ddiogelwch bwyd, iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion yn cael eu cymhwyso.

Mae'r rheoliadau hyn wedi'u dargadw mewn cyfraith ddomestig ym Mhrydain Fawr a'u diwygio.

Mae cyfraith yr UE a ddargedwir (fel y'i diwygiwyd) bellach yn darparu i awdurdodau domestig gynnal gwiriadau ar fewnforion planhigion i Brydain Fawr ac allforion ohoni. Mae gwiriadau ar **fewnforion** ac **allforion** planhigion i'r UE a Gogledd Iwerddon ac oddi yno'n cael eu cyflwyno'n raddol.

Ymgynghorodd **Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru** ar y cyd ar strategaeth bioddiogelwch planhigion ar gyfer Prydain Fawr ddiwedd 2021.

Amrywogaethau a hadau planhigion

Mae cyfraith yr UE ar amrywogaethau a hadau planhigion yn cynnwys **Rheoliad CE 2100/94 ar Hawliau Amrywogaethau Planhigion y Gymuned**, gan sefydlu system ar gyfer hawliau amrywogaethau planhigion ledled yr UE (h.y. hawliau eiddo deallusol ar gyfer amrywogaethau planhigion). Dirymwyd hyn ym Mhrydain Fawr ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae Cyfarwyddebau'r UE hefyd yn gosod safonau a gofynion marchnata ar gyfer hadau a deunydd lluosogi planhigion arall.

Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru yn cadw cofrestr o amrywogaethau planhigion domestig Prydain Fawr ac yn cytuno ar restrau ar y cyd. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n rhaid i amrywogaethau planhigion gael eu cofrestru ar Restr Amrywogaethau Gogledd Iwerddon neu Gatalog Cyffredin yr UE.

Mae'r UE wedi rhoi **cyfwerthedd ar gyfer hadau amaethyddol** (ac eithrio cynhyrchu hadau llysiau), deunydd lluosogi ffrwythau a llysiau, a deunydd atgenhedlol y goedwig (ac eithrio deunydd a brofwyd) i'r DU (h.y. Prydain Fawr) tan ddiwedd 2024.

Nid yw'r UE wedi rhoi cyfwerthedd i'r DU ar gyfer tatws hadyd ar y sail nad yw cyfraith y DU yn ddeinamig **gyson â chyfraith berthnasol yr UE**, felly gwaherddir allforio tatws hadyd i'r UE bellach. Trafodwyd y mater ym mis Medi 2021 mewn **cyfarfod rhwng y DU a'r UE**. Cyflwynodd y DU bapur ar y mater gyda'r bwriad o geisio cytundeb â'r UE a gofynnodd i'r UE rannu ei asesiadau risg â'r DU. Cynigiodd yr UE ddarparu papur briffio technegol i esbonio'r rhesymeg dros y gwaharddiad. Ym mis Ebrill 2022, fe wnaeth y **Comisiwn Ewropeaidd ailbwysleisio** ei sefyllfa.

Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfraith yr UE a ddargedwir

Mae **Llywodraeth y DU wedi amlinellu cynlluniau** i gyflwyno Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir i'w gwneud yn haws newid neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir a dileu'r statws arbennig sydd ganddo yng nghyfraith y DU. Gallai hyn arwain at ddileu neu newid safonau presennol mewn cyfraith ddomestig.

Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** na fydd yn ceisio gwneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn Fframweithiau Cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan weinidogion ym mhob fframwaith.

Mae **Mick Antoniw**, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, wedi dweud na ddylid rhanddirymu'r safonau y mae Llywodraeth Cymru yn eu dilyn a'i bod am wella safonau yng Nghymru mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig.

Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae ystod o rwymedigaethau rhyngwladol a chyrrff yn ymwneud â pholisi iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion.

Mae'r DU wedi ysgwyddo rhwymedigaethau rhyngwladol newydd ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Bellach, hi sy'n gyfrifol yn gyfrifol am negodi rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd a wnaeth yr UE ar ei rhan gynt. Mae'r **Llywodraethau datganoledig yn gyfrifol am arsylwi ar hyn a gweithredu'r rhwymedigaethau** o fewn eu cymhwysedd.

Iechyd planhigion

Mae **Cytundeb SPS Sefydliad Masnach y Byd** yn annog gwladwriaethau i sefydlu mesurau iechydol a ffytoiechydol (iechyd planhigion) sy'n gyson â'r safonau rhyngwladol.

Mae aelodau Sefydliad Masnach y Byd yn trafod gweithredu'r Cytundeb SPS yng nghyfarfod **Pwyllgor SPS Sefydliad Masnach y Byd**. Ar ôl diwedd y cyfnod pontio, mae Llywodraeth y DU wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynrychioli'r DU ar Bwyllgor SPS Sefydliad Masnach y Byd.

Mae'r **Confensiwn Diogelu Planhigion Rhyngwladol** yn gytundeb rhyngwladol sy'n ceisio gwarchod adnoddau planhigion rhag plâu a hyrwyddo masnach ddiogel. Mae wedi'i gydnabod gan Gytundeb SPS Sefydliad Masnach y Byd. Mae Comisiwn y Confensiwn Diogelu Planhigion Rhyngwladol ar Fesurau Fffytoiechydol yn mabwysiadu safonau rhyngwladol. Mae gwefan Comisiwn y Confensiwn Diogelu

Planhigion Rhyngwladol yn rhestru staff yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU (neu Defra) fel y **pwyntiau cyswllt swyddogol y DU ar Gomisiwn y Confensiwn Diogelu Planhigion Rhyngwladol**.

Amrywogaethau a hadau planhigion

Mae ystod o gyrff rhyngwladol gwahanol a safonau ar amrywogaethau a hadau planhigion. Maent wedi'u nodi ar dudalennau 10 ac 11 o'r fframwaith.

Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

Y Cytundeb Ymadael: Protocol Gogledd Iwerddon

Y prif fforwm ar gyfer trafod gweithredu'r Protocol yw **Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael** a'i Bwyllgor Arbenigol ar y Protocol. Ers iddo ddod i rym, mae'r Protocol wedi bod yn destun **nifer o anghydfodau rhwng y DU a'r UE**.

Gellir datgymhwyso dyletswyddau newydd a osodir ar Weinidogion Cymru gan **Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020** mewn perthynas â'r Protocol er mwyn ymdrin â bygythiadau i fioddiogelwch rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Mae'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE** yn cwmpasu meysydd sy'n ymwneud â'r fframweithiau, gan gynnwys darpariaethau SPS.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu **fframwaith sefydliadol** i'r DU a'r UE drafod ei weithrediad, gan gynnwys Cyngor Partneriaeth a phwyllgorau arbenigol masnach.

Bydd materion perthnasol yn cael eu trafod yn:

- y Pwyllgorau Arbenigol Masnach ar fesurau SPS; a'r
- gweithgor cynhyrchion organig, a sefydlwyd o dan y Pwyllgorau Arbenigol Masnach ar rwystrau technegol i fasnach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi **mynd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Arbenigol Masnach** fel sylwedydd.

Masnach ryngwladol

Gall cytundebau masnach ryngwladol hefyd nodi mesurau ar wiriadau SPS ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion.

Er enghraifft, mae'r **cytundeb masnach rydd rhwng y DU ac Awstralia** yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth o egwyddor cyfwerthedd mesurau SPS pan maent yn sicrhau amddiffyniad y wlad arall ar y lefel briodol.

Mae'n **rhaidd i Lywodraeth y DU gyflwyno adroddiad** ynghylch a yw cytundebau masnach penodol yn gyson ag amddiffyniadau statudol ar fywyd ac iechyd planhigion, wedi'i lywio gan y **Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth**.

2. Y fframweithiau cyffredin

Mae'r fframweithiau cyffredin dros dro yn nodi sut y bydd y llywodraethau'n cydweithio i wneud penderfyniadau am iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion yn y cyd-destun newydd hwn. Ategir pob fframwaith gan gongordat y cytunwyd arno rhwng Gweinidogion.

Mae'r naill fframwaith a'r llall yn cadarnhau'r **egwyddorion ar gyfer sefydlu fframweithiau cyffredin y cytunodd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd)** arnynt yn 2017. Maent hefyd yn nodi nodau ac amcanion iddynt eu hunain.

Iechyd planhigion

Dywed y fframwaith iechyd planhigion mai ei ddiben yw cynnal rheolau cyffredin ar iechyd planhigion ar draws y DU er mwyn hwyluso masnach fewnol y DU ac yn rhyngwladol. Hefyd, dywed ei fod yn ceisio cynnal un gyfundrefn fewnforio ar gyfer deunydd planhigion rheoledig Prydain Fawr.

Mae'r fframwaith yn dweud y gall llywodraethau ymwahanu lle y mae cyfiawnhad technegol, yn unol â chyfraith yr UE fel y mae'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon ac yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol.

Amrywogaethau a hadau planhigion

Mae'r fframwaith amrywogaethau a hadau planhigion yn nodi ei fod yn ceisio cynnal y safonau gofynnol ar gyfer marchnata hadau, wrth alluogi llywodraethau i ragori ar y safonau hynny yn unol ag egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion.

Mae'n nodi y dylid cael marchnad fewnol weithredol yn y DU ar gyfer hadau a deunydd lluosogi planhigion.

Hefyd, mae'n nodi ei fod yn ceisio cynnal un gyfundrefn bresennol yn y DU ar gyfer gweinyddu hawliau bridwyr planhigion.

Cwmpas

Mae'r naill fframwaith a'r llall yn cynnig arweiniad ynghylch pryd y bydd penderfyniadau o fewn eu cwmpas:

- Mae'r fframwaith **iechyd planhigion** yn nodi ei fod yn gymwys i gyfraith yr UE a ddargedwir ar iechyd planhigion;
- mae fframwaith yr **amrywogaethau a hadau planhigion** yn nodi bod prif gyfraith yr UE a ddargedwir bellach wedi'i dirymu, ac yn rhestru cyfraith ddomestig berthnasol a phenderfyniadau Comisiwn yr UE a ddargedwir fel rhai sydd o fewn cwmpas (Atodiad 1).

3. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r ddau fframwaith yn nodi haenau llywodraethu y gall y pedair llywodraeth a sefydliadau perthnasol eraill gydweithio drwyddynt. Yn y ddau achos, y Bwrdd Rhaglen Uwch-swyddogion a'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n darparu uwch-oruchwyliaeth gan y pedair llywodraeth.

Iechyd planhigion

Mae ystod o gyrff gwahanol yn ymwneud â datblygu a chyflawni polisi iechyd planhigion ar draws y DU. Nodir cyfrifoldebau Cymru ar dudalen 11 o'r fframwaith.

Mae'r fframwaith yn nodi haenau llywodraethu i'r gyrff hyn weithio gyda'i gilydd.

- Mae **Sefydliad Cenedlaethol y DU ar Ddiogelu Planhigion** yn cynnwys y prif swyddogion planhigion ar gyfer pob llywodraeth a'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r grŵp hwn yn rhoi trosolwg strategol o iechyd planhigion.
- Mae **Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU** yn cynnwys swyddogion yn y pedair llywodraeth a chynrychiolwyr y Comisiwn Coedwigaeth a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Nodir hwn fel prif gorff penderfyniadau'r fframwaith, yn gyfrifol am asesu bygythiadau i iechyd planhigion a chynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith a pholisi.

- Mae **Grŵp Polisi Iechyd Planhigion y DU (y cyfeirir ato hefyd fel Gweithgor Polisi Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig)** yn cynnwys swyddogion o'r pedair llywodraeth a'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae'n darparu cymorth polisi i'r Grŵp Risg ac yn ceisio cynnal dulliau gweithredu cyffredin ar draws y DU.
- Mae **grwpiau technegol** yn darparu cynigion polisi drafft i'w trafod yn y Grŵp Risg Iechyd Planhigion.

Dangosir rhwydwaith o **grwpiau cysylltiedig** eraill yn y diagram ar gyfer trefniadau llywodraethu'r fframwaith yn Atodiad 1 i'r Concordat. Prin yw'r wybodaeth am y rhan fwyaf o'r grwpiau hyn yn nhestun y fframwaith. Mae **Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi codi pryderon** bod y trefniadau yn "aneglur, yn gymhleth ac yn rhy fiwrocrataidd".

Defra sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Sefydliad Cenedlaethol y DU ar Ddiogelu Planhigion, Grŵp Polisi Iechyd Planhigion y DU a Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU. Ni roddir gwybodaeth am gadeirio cyfarfodydd y grwpiau.

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn cyflawni rhai swyddogaethau iechyd planhigion yng Nghymru (fel rheoli clefydau daearol a gwyliadwriaeth), ond nid yw wedi'i restru fel aelod o Sefydliad Cenedlaethol y DU ar Ddiogelu Planhigion, Grŵp Polisi Iechyd Planhigion y DU na Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU.

Amrywogaethau a hadau planhigion

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisi amrywogaethau a hadau planhigion. Mae'r **Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)** yn ardystio hadau a deunydd lluosogi planhigion eraill, yn trwyddedu ac yn gorfodi ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r **Comisiwn Coedwigaeth** yn gyfrifol am swyddogaethau sy'n ymwneud â deunydd atgenhedlol y goedwig.

Mae'r fframwaith yn sefydlu haenau llywodraethu i'r llywodraethau weithio gyda'i gilydd.

- Y **Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau** Planhigion yw'r grŵp lefel uchaf, yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Uwch-swyddogion.
- Mae'r **Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol** dan y Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion. Mae'n gyfrifol am reoli cofrestru amrywogaethau ac yn cynghori'r Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion.
- Mae'r **Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion** yn rhoi ac yn gweinyddu hawliau amrywogaethau planhigion. Mae'r swyddfa hon yn cael ei rheoli gan Reolydd y DU, a benodir ar y cyd gan Weinidogion o'r pedair llywodraeth, a'i gweinyddu gan APHA.

- Mae **is-grwpiau technegol** yn roi cyngor ar feysydd penodol o bolisi amrywogaethau a hadau planhigion.

Nid yw'r fframwaith yn darparu cylch gorchwyl na gwybodaeth am aelodaeth y Swyddfa Hawliau Amrywogaethau Planhigion na'r Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol, gan ddweud eu bod yn cael eu hadolygu. Mae'n dweud bod y ddau grŵp yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac, ar hyn o bryd, bob pedair wythnos.

Mae'r fframwaith hefyd yn darparu ar gyfer cysylltu grwpiau eraill â threfniadau llywodraethu'r fframwaith (megis y gweithgor mynediad i'r farchnad ar Iechyd Planhigion y DU), ond nid yw'n nodi sut y bydd hyn yn gweithio.

Cysylltiadau rhwng y fframweithiau

Mae'r fframwaith amrywogaethau a hadau planhigion yn nodi y bydd rhyngweithio rhwng y ddau fframwaith yn y gweithgor mynediad i'r farchnad ac ar gyfer mathau penodol o hadau a deunydd lluosogi planhigion. Mae'n dweud y bydd partïon y ddau fframwaith yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth, gan gynnwys hysbysu ei gilydd am gynigion polisi cyn gynted â phosibl.

Nid yw'r fframweithiau'n dwyn i ystyriaeth sut y gallent ryngweithio â fframweithiau cyffredin eraill mewn meysydd cysylltiedig, er enghraifft **diogelwch a hylendid bwyd, a bwyd anifeiliaid** neu **ddiogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd**.

Cydweithio

Mae'r naill fframwaith a'r llall yn darparu i'r partïon gydweithio a datblygu dulliau cydweithredol o ymdrin â chyfraith a pholisi o fewn eu cwmpas.

Iechyd planhigion

Mae'r partïon i'r fframwaith yn cytuno i gydweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Mabwysiadu rheolau cyffredin ar symud deunydd planhigion rheoledig;
- ystyried cynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith a pholisi ac ymwahaniadau ynddynt;
- datblygu dull ar y cyd o ymdrin â bygythiadau i iechyd planhigion, gan gynnwys cydweithio ar ddadansoddi risg, penderfyniadau ar ddiweddarau rhestrau o blâu a phlanhigion risg uchel, gwaith cynllunio wrth gefn ac ymateb i achosion;

- cydgysylltu negeseuon allanol.

Amrywogaethau a hadau planhigion

Mae'r partïon i'r fframwaith yn cytuno i gydweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Rhannu gwybodaeth a chydweithio er mwyn datblygu polisi;
- hwyluso penodi Rheolydd y DU ar y cyd;
- gwneud penderfyniadau ar newidiadau i gyfraith a pholisi, rhanddirymiadau dros dro o safonau marchnata, a cheisiadau am benderfyniadau cyfwerthedd;
- penderfynu ar amcanion polisi cyffredin a sefyllfaoedd sefydliadau rhyngwladol;
- cydgysylltu negeseuon allanol.

4. Rheoli ymwahanu

Gwneud penderfyniadau

Mae'r fframweithiau'n nodi prosesau i'r llywodraethau drafod a chytuno ar gynigion ar gyfer dulliau cyffredin ac ymwahanol o ymdrin â chyfraith a pholisi.

Os yw un llywodraeth am ymwahanu

- ar **iechyd planhigion**, bydd Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU yn asesu effaith ymwahanu ar ddiogelu iechyd planhigion, defnyddwyr, masnach y DU, a rhwymedigaethau rhyngwladol;
- ar **amrywogaethau a hadau planhigion**, bydd y Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion yn trafod effaith ymwahanu, gan gynnwys ar y farchnad fewnol, masnach ryngwladol a rhwymedigaethau rhyngwladol.

Os na all y llywodraethau gytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull neu ymwahanu, gellir defnyddio'r broses datrys anghydfod.

Mae'r fframwaith amrywogaethau a hadau planhigion hefyd yn cyfeirio at – ond nid yw'n cynnwys – bedwar protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn meysydd penodol.

- Cynigion ar gyfer deddfwriaeth;
- rhoi rhanddirymiadau i alluogi marchnata hadau o safon egino is dros dro;
- trin ceisiadau gan wledydd eraill i'w deunydd planhigion gael ei gydnabod fel un cyfwerth â deunydd planhigion y DU;

- cynrychiolaeth a chydgysylltiad rhyngwladol.

Dywed y fframwaith y bydd y protocolau hyn yn dilyn. Yn niffyg y protocolau hyn, nid yw'n bosibl darparu asesiad llawn o brosesau penderfynu'r fframwaith.

Yr effaith ar benderfyniadau

Yn y ddau achos, mae'r llywodraethau'n cytuno i beidio â bwrw ymlaen â newidiadau ymwahanol i gyfraith a pholisi heb fynd drwy brosesau'r fframwaith.

Mae'r fframwaith **amrywogaethau a hadau planhigion** hefyd yn darparu bod yn rhaid i lywodraethau hysbysu ei gilydd cyn gynted â phosibl am gynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith a pholisi, cyn ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n nodi na chaiff y partïon weithredu mesur ymwahanol heb geisio cytundeb y partïon eraill.

Gallai hyn gael effaith ar rôl y Senedd a rhanddeiliaid Cymru o ran dylanwadu ar ddatblygu cyfraith a pholisi ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion.

Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Rhan o ddiben y ddau fframwaith yw sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y DU.

Mae **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020** yn nodi yn ôl y gyfraith, egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol yn y gyfraith. Nod yr egwyddorion hyn yw sicrhau (yn gyffredinol) y gall nwyddau a gwasanaethau y gellir eu gwerthu neu eu hawdurdodi mewn un rhan o'r DU gael eu gwerthu neu eu hawdurdodi mewn unrhyw ran arall.

Gallai'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y Ddeddf gyfyngu ar effaith ymarferol cyfraith Cymru ar iechyd planhigion neu amrywogaethau a hadau planhigion.

Mae'r Ddeddf yn nodi eithriadau cyfyngedig o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad ar gyfer bygythiadau i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion.

Mae gan Lywodraeth y DU bwerau i greu eithriadau newydd o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad neu amrywio'r rhestr o nodau dilys drwy reoliadau. Mae'r llywodraethau wedi cytuno ar **broses ar gyfer ystyried eithriadau o'r Ddeddf mewn meysydd fframwaith cyffredin, a chytuno i'r eithriadau hynny**. Nid yw'r fframweithiau'n cyfeirio at y broses hon.

Rheoli ymwahanu â Gogledd Iwerddon a'r UE

O dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae cyfraith yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion. Mae'r ddau fframwaith yn nodi'r canlynol:

- Wrth i Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ar bolisi a rheoleiddio iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion, bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan mewn trafodaethau a bydd ei barn yn cael ei hystyried; a
- phan fo rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â'r UE, bydd y pedair llywodraeth yn ystyried y newidiadau ac yn pennu effeithiau neu gamau gweithredu dilynol.

Os bydd Gweinidogion Gogledd Iwerddon yn credu nad yw eu pryderon wedi cael digon o sylw, gallant ddefnyddio proses datrys anghydfodau'r fframwaith.

Ar ddechrau 2022, cododd Pwyllgor Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon bryderon ynghylch effaith y gwahaniaeth rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ar **iechyd planhigion** ac **amrywogaethau a hadau planhigion** polisi.

5. Datrys anghydfodau

Mae'r ddau fframwaith yn nodi prosesau datrys anghydfod i'r llywodraethau eu dilyn os na allant gytuno. Mae'r ddau'n nodi mai dim ond pan na ellir dod i gytundeb gwirioneddol y dylid defnyddio'r broses datrys anghydfod, megis pan fyddai ymwahanu'n cael effaith negyddol ar y gallu i fodloni egwyddorion Cydbwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE).

Mae'r prosesau datrys anghydfod yn darparu ar gyfer uwchgyfeirio anghydfodau o lefel weithredol i uwch-swyddogion ac yna i Weinidogion.

Yn olaf, gellir uwchgyfeirio'r anghydfod i brosesau rhynglywodraethol priodol. Ym mis Ionawr 2022, **cytunodd llywodraethau** ar broses datrys anghydfod rhyngweinidogol newydd fel rhan o'r Adolygiad o Berthynas Rhynglywodraethol. **Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod hyn yn gam arloesol.

Iechyd planhigion

Mae'r llywodraethau'n cytuno y gall y broses datrys anghydfod gael ei sbarduno os canfyddir bod newid arfaethedig i bolisi yn cael effaith negyddol. Gallai hyn fod ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, neu weithrediad marchnad fewnol y DU, neu os yw'r cynnig yn gwrthdaro â pholisi un o bartïon eraill y fframwaith.

Bydd Sefydliad Cenedlaethol y DU ar Ddiogelu Planhigion yn ystyried anghydfodau yn y lle cyntaf. Yna, gellir uwchgyfeirio anghydfodau i'r Bwrdd Rhaglen Uwch-swyddogion ac i Weinidogion.

Amrywogaethau a hadau planhigion

Bydd y Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion yn penderfynu pa grŵp ddylai ystyried anghydfod yn y lle cyntaf.

Trafodir anghydfodau technegol gan y Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol a gellir eu huwchgyfeirio i'r Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion.

Trafodir anghytundebau polisi gan y Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion.

Mae'r fframwaith yn darparu y gall unrhyw barti ofyn am gyngor cyfreithiol fel rhan o'r broses datrys anghydfod.

Os nad oes cytundeb ar lefel swyddogol, mae'r partïon yn enwebu uwch-swyddogion i ystyried yr anghydfod ymhellach. Yna, gellir uwchgyfeirio anghydfodau i'r Bwrdd Rhaglen Uwch-swyddogion, ac i Weinidogion yn y pen draw.

Yr effaith ar benderfyniadau

Nid yw'r fframweithiau yn darparu amserlenni ar gyfer datrys anghydfod. Gallai hyn arwain at oedi i benderfyniadau.

Heblaw am y fframwaith **amrywogaethau a hadau planhigion** sy'n darparu ar gyfer gofyn am gyngor cyfreithiol, nid yw'r fframweithiau'n darparu ar gyfer mewnbwn allanol i'r broses datrys anghydfod.

Mae Llywodraeth **Cymru wedi cytuno** i hysbysu'r Senedd am anghydfodau a godwyd drwy fframweithiau cyffredin.

6. Rheoli'r rhwymedigaethau rhyngwladol

Diben y naill fframwaith a'r llall yw sicrhau – yn rhannol – y gall y DU negodi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

Mae'r llywodraethau'n cytuno y bydd llunio polisi rhyngwladol yn seiliedig ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli presennol a'r Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol sy'n cyd-fynd ag ef ac y byddant yn awtomatig yn defnyddio unrhyw Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i ddiweddarau, a chanlyniadau ehangach y Cydadolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

Cafodd y **Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol** ei ddiweddarau ddiwethaf yn 2013; ni chafodd ei ddiwygio fel rhan o'r **Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol**. Nid yw'r Concordat yn adlewyrchu'n benodol rôl gynyddol Llywodraeth y DU o ran cytuno ar rwymedigaethau rhyngwladol ar ôl Brexit mewn meysydd a oedd o fewn cymhwysedd yr UE gynt, megis masnach.

Rhwymedigaethau rhyngwladol

Iechyd planhigion

Mae'r fframwaith iechyd planhigion yn darparu y bydd y partïon yn cydweithio i gyfrannu i safbwyntiau polisi'r DU ar gyfer cyfarfodydd rhyngwladol a safonau rhyngwladol.

Dywed y fframwaith y bydd y Gweithgor Polisi Iechyd Planhigion yn cydgysylltu hysbysiadau i Sefydliad Masnach y Byd.

Mae hefyd yn cyfeirio at fodel gweithredu ar wahân sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cydweithio ar gytundeb SPS Sefydliad Masnach y Byd a chanllawiau'r Adran Masnach Rhyngwladol ar sut y gall y llywodraethau datganoledig ymgysylltu â Phwyllgorau Sefydliad Masnach y Byd. Nid yw'n ymddangos bod y dogfennau hyn yn y parth cyhoeddus.

Mae'r fframwaith hefyd yn cadarnhau bod yn rhaid i benderfyniadau ar iechyd planhigion fod yn gyson â'r Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Planhigion. Mae'n nodi bod Defra yn gyfrifol am gynrychioli safbwynt cytûn y DU mewn cyrff rhyngwladol (gan gynnwys cyrff llywodraethu'r Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Planhigion), ond nid yw'n nodi sut y bydd y llywodraethau'n cydweithio i ffurfio barn.

Amrywogaethau a hadau planhigion

Mae'r fframwaith yn dweud y bydd y partïon yn cydweithio i ymgysylltu â sefydliadau rhyngwladol, gan gydgysylltu safbwynt cyffredin i gynrychioli barn gytûn y DU.

Mae'n dweud bod mwy o fanylion mewn protocol ar gydgysylltu â sefydliadau rhyngwladol. Nid yw hwn wedi'i gyhoeddi eto.

Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

1. Mae'r Cytundeb yn sefydlu **fframwaith sefydliadol** i'r DU a'r UE drafod ei weithredu, gan gynnwys Cyngor Partneriaeth, Pwyllgorau Arbenigol ar Fasnach a phwyllgorau Arbenigol (gan gynnwys nwyddau, mesurau SPS, a darpariaethau tegwch yn y farchnad). Mae **Llywodraeth Cymru yn mynd i'r** cyfarfodydd fel sylwedydd.

Mae'r ddau fframwaith yn cydnabod y gall Pwyllgorau Arbenigol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cyngor Partneriaeth drafod iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion. Fodd bynnag, mae materion o'r fath yn dod o fewn Pwyllgorau Arbenigol Masnach y Cytundeb, sydd â rolau gwahanol a phwerau mwy cyfyngedig na'i Bwyllgorau Arbenigol.

Mae'r fframweithiau'n cadarnhau, lle mae agenda cyfarfod rhwng y DU a'r UE yn cynnwys eitem sy'n ymwneud â gweithredu mewn maes cymhwysedd datganoledig, fod Llywodraeth y DU yn cytuno i hwyluso presenoldeb y llywodraethau datganoledig ar lefel debyg i gynrychiolwyr Llywodraeth y DU. Cyd-gadeirydd y DU fydd â'r disgresiwn terfynol. Dylai Llywodraeth y DU hefyd ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig wrth baratoi at gyfarfodydd.

Cytundebau masnach ryngwladol

Mae'r ddau fframwaith yn nodi y byddant yn rhoi cyfle i ystyried goblygiadau sy'n deillio o fasnach ryngwladol sy'n ymwneud â'u gweithrediad yn uniongyrchol.

Mae'r fframwaith **iechyd planhigion** yn nodi y bydd y gweithgor mynediad i'r farchnad yn cydgysylltu hyrwyddo masnach a chydweithrediad. Mae hwn yn adrodd i Sefydliad Cenedlaethol y DU ar Ddiogelu Planhigion, ni ddarperir cylch gorchwyl ar gyfer y gweithgor mynediad i'r farchnad. Mae'r fframwaith yn nodi bod ymgysylltiad rheolaidd ar negodiadau masnach rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig drwy Grŵp Ymgysylltu â Masnach Defra.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** bod y fframwaith yn caniatáu iddi ddylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion mewn trafodaethau masnach, ac i uwchgyfeirio trafodaethau i lefel ryngweinigol.

7. Monitro, adolygu a diwygio

Mae'r naill fframwaith a'r llall yn nodi trefniadau monitro.

- Bydd Sefydliad Cenedlaethol y DU ar Ddiogelu Planhigion yn cyfarfod bob chwarter ac yn monitro'r fframwaith **iechyd planhigion**. Bydd yn asesu cydweithrediad rhynglywodraethol ac a yw ymwahaniad niweidiol wedi digwydd.
- Bydd y Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol a'r Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion yn monitro'r fframwaith **amrywogaethau a hadau planhigion** mewn cyfarfod blynyddol.

At hynny, mae'r naill fframwaith a'r llall yn nodi prosesau ar gyfer adolygu a diwygio.

- Bydd partïon y fframwaith **iechyd planhigion** yn adolygu'r fframwaith bob dwy flynedd ar ôl i'r fframwaith gael ei lofnodi.
- Bydd y fframwaith **amrywogaethau a hadau planhigion** yn cael ei adolygu ar ôl y chwe mis cyntaf neu yn sgil canlyniadau'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, pa un bynnag sydd gyntaf. Cwblhawyd yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ym mis Ionawr 2022. Bydd y fframwaith yn cael ei adolygu bob tair blynedd ar ôl hynny. Mae paragraff 52 o'r Concordat yn cyfeirio at adolygiadau bob chwe blynedd. Mae hyn yn ymddangos yn gamgymeriad.

Bydd adolygiad hefyd os bydd 'mater arwyddocaol' yn codi sy'n cael 'effaith sylfaenol' ar weithrediad y fframwaith. Ni ellir trafod yr un mater arwyddocaol o fewn chwe mis i ddiwedd y drafodaeth.

Yn dilyn adolygiad, caiff y llywodraethau gytuno i drafod diwygiadau posibl os bydd cytundeb unfrydol. Mae'n rhaid cytuno'n unfrydol ar ddiwygiadau i'r fframweithiau. Os na fydd cytundeb, gellir defnyddio'r broses datrys anghydfodau.

8. Tryloywder ac atebolrwydd

Mae'r naill fframwaith a'r llall yn rhoi gwybodaeth gyfyngedig am sut yr ymgynghorir â rhanddeiliaid yn eu datblygiad. Mae'r **fframwaith amrywogaethau a hadau planhigion** yn nodi y gwahoddwyd rhanddeiliaid i wneud sylwadau ar ddogfen gryno, ond na chafwyd llawer o adborth. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** yr ymgynghorwyd â rhanddeiliaid yn ystod y broses ddrafftio ac ar ôl cyhoeddi.

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd yn ystyried **y ddau fframwaith**. Fe wnaeth **y Pwyllgor ymgynghori** ar fframweithiau cyffredin o fewn ei gylch gorchwyl ddechrau 2022.

At hynny, mae pwyllgorau mewn seneddau ledled y DU wedi cynnal gwaith craffu ar y naill fframwaith a'r llall. Adroddodd Pwyllgor **Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** ar y fframwaith cyffredin iechyd planhigion ym mis Ebrill 2022. Cyhoeddodd **Pwyllgor Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon** bapurau safbwynt ar y naill fframwaith a'r llall ychydig cyn diwedd mandad Cynulliad 2017-22. Y disgwyl hefyd yw y bydd **Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Materion Gwledig, Ynysoedd a'r Amgylchedd Naturiol** yr Alban yn ystyried y fframweithiau.

Nid oes ymrwymiad ar gyfer adroddiadau ar weithrediad y fframweithiau i'w creu neu eu cyhoeddi. Mae **Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** yn unochrog i adrodd yn flynyddol ar y fframweithiau. Ym mis Tachwedd, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod y Llywodraethau oll wedi cytuno i adrodd i'r Seneddau ar y fframweithiau cyffredin yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau i roi rôl i seneddau o ran monitro gweithrediad y fframwaith na chraffu ar welliannau. Dywed y fframwaith y gall y llywodraethau ddefnyddio trydydd partion i gynghori ar adolygu a diwygio'r fframwaith. Gallai hyn gynnwys cyrff llywodraeth neu randdeiliaid allanol. Ym mis Mawrth, **cytunodd y Cwnsler Cyffredinol** i hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid pan gaiff fframwaith cyffredin ei adolygu, a thrafod eu hargymhellion cyn i'r broses adolygu ddod i ben.